



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Calon Lân Community Care

**Calon Lân
10 Vaughan Street
Llandudno
LL30 1AB**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

4 Awst 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chalon Lân Community Care

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cymorth cartref
Darparwr cofrestredig	Calon Lân Community Care Ltd
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'.

Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan weithwyr gofal sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n deall eu hoffterau a'r hyn sydd yn well ganddynt. Mae cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth bwysig ar gyfer staff gofal sy'n manylu ar sut mae'r bobl am gael eu cefnogi. Mae anghenion y bobl yn cael eu diwallu gan dimau bach o staff sy'n meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw, gan roi cysondeb a dilyniant o ran gofal iddynt. Mae gweithwyr gofal yn derbyn rotâu a gofynnir i'r bobl hefyd a hoffent gael copïau o'r rhain fel eu bod yn gwybod pa staff i'w disgwyl. Rhoddir gwybod i'r bobl neu eu perthnasau ymlaen llaw am unrhyw newidiadau, pan fo hynny'n briodol, yn ogystal â gweithwyr gofal. Mae systemau ar waith i fonitro galwadau, gan sicrhau bod y staff cywir yn cyrraedd ar yr amser cywir.

Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd, gwrandewir arnynt, ac mae eu hoffterau yn cael eu parchu. Mae hoff bethau, dewisiadau a hoffterau'r bobl yn cael eu cofnodi'n glir yn eu cynlluniau personol er mwyn hysbysu gweithwyr gofal am y ffordd orau o'u cefnogi. Gofynnir i'r bobl am eu barn am y gwasanaeth a cheir adborth mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae'r bobl a'u perthnasau, pan fo'n briodol, yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â gofal a chymorth ac mae'r bobl yn llofnodi eu cynlluniau personol eu hunain pan fydd modd gwneud hyn. Mae'r gwasanaeth yn hysbysu'r bobl ac eraill sy'n ymwneud â'u gofal a chymorth am unrhyw newidiadau.

Mae anghenion llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl yn cael eu diwallu. Mae cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am eu hanghenion iechyd, cyflyrau meddygol, nifer y staff sydd eu hangen, ac unrhyw fewnbwn gan weithwyr proffesiynol. Mae asesiadau risg manwl hefyd ar waith i staff eu dilyn, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â symudedd, unrhyw gyfarpar, a nifer y staff sydd eu hangen. Mae timau bach a sefydlog o staff gofal wedi meithrin perthynas dda â'r bobl a'u teuluoedd.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt; gwrandewir arnynt ac mae unrhyw risgiau yn cael eu hystyried. Gwnaethom edrych ar gynlluniau personol a oedd yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y bobl a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, eu hanghenion gofal a chymorth, a'u dewisiadau unigol. Mae unrhyw gyfranogiad gan weithwyr proffesiynol a'u manylion cyswllt hefyd yn cael eu cofnodi. Mae cofnodion dyddiol yn adlewyrchu bod staff gofal yn darparu gofal a chymorth yn unol â chynlluniau'r bobl. Ceir adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft trwy ffurflenni adolygu a galwadau ffôn yn ogystal â holiaduron boddhad. Lle mae risgiau wedi'u nodi, cwblheir cynlluniau rheoli risg manwl, gan gynnwys iechyd, symudedd, meddyginiaeth, maeth a'r amgylchedd.

Mae'r bobl yn derbyn gofal cyson gan staff sy'n gyfarwydd iddynt. Ymwelir â'r bobl gan staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n gallu diwallu eu hanghenion. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod yr un aelodau o staff yn gofalu am y bobl, sy'n golygu eu bod yn meithrin perthynas dda â nhw a'u teuluoedd. Caiff pob galwad ei dyrannu gan ddefnyddio system electronig a darperir rotâu i'r staff gofal ymlaen llaw. Gofynnir hefyd i'r bobl a hoffent dderbyn copi, fel eu bod yn gwybod pa staff gofal i'w disgwyl. Mae galwadau yn digwydd ar yr adegau priodol gyda system ar waith i fonitro unrhyw broblemau o ran ymweliadau gan y staff fel y gellir rhoi sylw i hyn. Mae unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar y bobl yn cael eu rhannu â nhw ac ag eraill sy'n ymwneud â'u gofal a'u cymorth. Mae system ar alwad ar waith fel y gellir nodi a datrys unrhyw broblemau.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal ymroddedig ac mae'r gwaith o recriwtio staff newydd yn parhau. Gwnaethom siarad â'r rheolwyr am rai anawsterau o ran recriwtio staff gofal sydd bellach wedi'u datrys ar ôl i staff newydd gael eu recriwtio. Buom hefyd yn trafod achlysuron pan na ellir dod o hyd i atebion o ran staffio a bod cytundeb yn cael ei wneud gyda'r bobl/teuluoedd ynghylch y ffordd orau o symud ymlaen. Trwy drafod ac edrych ar rotâu, gwelsom fod y niferoedd cywir o staff yn cael eu darparu ar gyfer y bobl, gan gynnwys y rhai sydd angen galwadau gan ddau o bobl. Mae proses ar waith ar gyfer yr adeg pan na ellir diwallu anghenion y bobl yn ddiogel mwyach. Dywedodd y rheolwr wrthym nad yw hwn yn benderfyniad sy'n cael ei wneud yn ysgafn a bod comisiynwyr, y bobl a'u teuluoedd yn cael eu hysbysu o hyn o fewn amserlen benodol.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 16/09/2022